@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

Ysgol Gymraeg Aberystwyth

e-bost
swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

Trefniadau Mabolgampau Ysgol

Dewis 1af – dydd Mercher, Mehefin 29ain. Ail ddewis (os yn wlyb) – dydd Iau, Mehefin 30ain

Amser cychwyn – Blwyddyn 1, 2, 3, 4, 5 a 6 yn cychwyn y weithgaredd gyntaf am 12.45. **Meithrin a Derbyn** yn cychwyn y weithgaredd gyntaf am 1 o'r gloch.

Amserlen y gweithgareddau - yn ystod y diwrnod rydym yn cadw'r plant yn brysur drwy gydol y prynhawn gyda gweithgaredd newydd yn cychwyn pob chwarter awr. Mae rhai cystadlaethau unigol megis y naid uchel, naid hir, taflu pêl a'r marathon wedi digwydd cyn diwrnod y mabolgampau. Yn ystod y prynhawn mi fyddwch yn symud o gwmpas y gweithgareddau gyda'ch plant – weithiau mi fydd angen i chi rannu eich amser yn ôl yr amserlen er mwyn gweld gwahanol blant yn cymryd rhan. Mi fydd gweithgareddau'r Cyfnod Sylfaen ar gae'r ysgol a gweithgareddau Cyfnod Allweddol 2 ar Gaeau Penweddig a'r Clwb Rygbi.

Lluniaeth ysgafn gan y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon - mi fydd yna doriad ar gyfer lluniaeth ysgafn yng nghanol y prynhawn – Cyfnod Sylfaen am 1.45 a Chyfnod Allweddol 2 am 2 o'r gloch. Fodd bynnag er mwyn osgoi ciwio mi fyddai'n syniad i chi fynd i gael paned / cacen cyn neu ar ôl yr amser egwyl swyddogol. Mae croeso i chi helpu ar y stondin os oes modd – cysylltwch â crha.ysgol.gymraeg@gmail.com er mwyn cael lle ar yr amserlen.

Casglu plant ar ddiwedd y mabolgampau:

- **Meithrin a Derbyn** – os oes modd gofynnir yn garedig i chi gasglu plant y Meithrin a'r Derbyn am 2.45 o'r ardaloedd lle mae'r dosbarthiadau yn gwneud y gweithgareddau. Os nad yw hyn yn bosib yna mi fydd y plant yn aros gyda'r athrawon ac yn dilyn y trefniadau casglu arferol ar ddiwedd dydd.

- **Blynyddoedd 1, 2, 3, 4, 5 a 6** – yn dilyn y weithgaredd olaf (Ras fawr, pasio'r bêl) ar gaeau Penweddig am 3 o'r gloch mi fydd y plant yn dychwelyd i gorlan ger y cwrs antur er mwyn derbyn y canlyniadau a dosbarthu tariannau. Yn dilyn y canlyniad terfynol mi fydd y plant yn dychwelyd i'r dosbarthiadau gyda'r staff er mwyn derbyn eu tystysgrifau.

- **Yn dilyn y canlyniadau gofynnir i rieni / gwarcheidwaid fynd i'r llefydd casglu arferol** ger y brif fynedfa neu'r gatiau gwyrdd ger y Pafiliwn ac aros i'r plant ddod allan tua 3.30 (gyda'u brodyr / chwiorydd). Mi fydd pawb yn dod allan yn weddol agos at yr un amser ar ddiwrnod y mabolgampau felly gofynnir yn garedig i chi fod yn amyneddgar.

Iechyd a Diogelwch – cofiwch eli haul a digon o ddŵr ar gyfer y tywydd braf iawn sydd gyda ni ar hyn o bryd.

Achosion positif o covid-19 - ni ddylai disgyblion sydd â symptomau covid-19 fynychu'r ysgol. Mi fydd angen parhau i hunan ynysu am 5 diwrnod a chael 2 brawf LFD negyddol cyn dychwelyd.

Diwrnod HMS – cofiwch fod yr ysgol ar gau ar gyfer hyfforddiant i'r staff ar ddydd Gwener, Gorffennaf 1af.

Os oes gennych unrhyw bryderon am les neu addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith.

R C Williams
Pennaeth
23/06/2022

@YsgolGymraeg
www.ysgolgymraeg.cymru

Ysgol Gymraeg Aberystwyth

e-bost
swyddfa@ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk

Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, Ceredigion SY23 1HL
Ffôn / *Tel:* 01970 617613 Ffacs / *Fax:* 01970 636742

School Sports Day Arrangements

First Choice - Wednesday, June 29th. *Second choice (if wet) - Thursday, June 30th*

Start time - Years 1, 2, 3, 4, 5 and 6 *start the first activity at 12.45.* ***Nursery and Reception*** *start the first activity at 1 o'clock.*

Programme of activities - *during the day we will be keeping the children engaged throughout the afternoon with a new activity starting every quarter of an hour. Some individual competitions such as the high jump, long jump, ball throwing and the marathon have already taken place before sports day. During the afternoon you will be able to move around the activities with your children - sometimes you may need to split your time according to the timetable to see different children taking part. The Foundation Phase activities will be held on the school field and the Key Stage 2 activities on Penweddig Fields and the Rugby Club.*

Refreshments by the PTA - *there will be a break for mid-afternoon refreshments - Foundation Phase at 1.45 and Key Stage 2 at 2 o'clock. However, to avoid queuing it is advisable to go for a cup of tea / cake before or after the official break. Feel free to help out on the stand if possible - contact crha.ysgol.gymraeg@gmail.com for a place on the timetable.*

Collecting children at the end of the sports day:

- ***Nursery and Reception*** *- if possible parents are kindly asked to collect the Nursery and Reception children at 2.45 from the areas where the classes will be doing their activities. If this is not possible then the children will stay with the teachers and follow the usual collection arrangements at the end of the day.*

- ***Years 1, 2, 3, 4, 5 and 6 -*** *following the final activity (Ras fawr, passing the ball) on Penweddig fields at 3 o'clock the children will return to a collection area near the adventure course in order to receive the results / distribute shields. Following the final result, the children will return to the classrooms with the staff to receive their certificates.*

- ***Following the results parents / guardians are asked to go to the usual pick-up points*** *near the main entrance or green gates near the Pavilion and wait for the children to come out around 3.30 (with their siblings). Everyone will come out at about the same time on sports day so please be patient.*

Health and Safety - *remember sun cream and plenty of water for the lovely weather we have at the moment.*

Positive cases of covid-19 *- pupils with covid-19 symptoms should not attend school. Self-isolation for 5 days and 2 negative LFD tests will be required before returning.*

INSET day – *please remember that the school is closed for staff training on Friday, July 1st.*

If you have any concerns about your child's welfare or education, then please contact me immediately.

R C Williams
Headteacher
23/06/2022